# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2003

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.50pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
**Roedd mwy na 10 Aelod yn gwrthwynebu'r Datganiad Busnes.**
**Cynhaliwyd pleidlais ar y Datganiad Busnes**
O Blaid 39; Ymatal 0; Yn Erbyn 13; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Datganiad Busnes**

**3.00pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003**
*NDM1338* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 4 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1339* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn cymeradwyo gwneud Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 4 Chwefror 2003.

*[Sylwer: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r rheoliadau hyn gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) and (iii)].*

Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Mabwysiadu (Amryfal Ddiwygiadau) 2003 o dan Reolau Sefydlog 23.10, 23.11 a 22.25 - TYNNWYD YN ÔL**

*NDM1340* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 23.10, 23.11 a 22.25:

Yn cymeradwyo:

a. Y fersiwn drafft o Voluntary Adoption Agencies and the Adoption Agencies (Miscellaneous Amendments) Regulations 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2003; a
   b) Y Memorandwm Esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2003; ac
   c) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2003.

**3.17pm**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

*NDM1341* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**

O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1342* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2003;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 4 Chwefror 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**

O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.25pm**

**Cynnig i benodi personau i weinyddu’r Llw (yn unol ag adran 20(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

*NDM1332* - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu y bydd unrhyw berson sy'n gweithio fel Clerc y Cynulliad, Dirprwy Glerc y Cynulliad, neu yn absenoldeb y Clerc a'r Dirprwy Glerc, aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil o fewn Swyddfa'r Llywydd yn berson a benodir gan y Cynulliad o dan adran 20 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru i fod yn berson y gellir cymryd y llw neu wneud y datganiad o'i flaen.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 42; Ymatal 2; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.32pm**
**Dadl am adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am Wasanaethau Iechyd ar gyfer Plant ag Anghenion Arbennig**
*NDM1343* - Cynnig bod:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei Adolygiad o'r Gwasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.31pm**
**Dadl ar Ddyfodol y Cynllun Amaeth-Amgylcheddol**
*NDM1344* - Yn cynnig bod:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig at hyrwyddo cynaliadwyedd yr amgylchedd yng Nghymru, ac yn cytuno y dylid gwneud pob ymdrech i ehangu cwmpas cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol, gan ddibynnu ar ganlyniad yr Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, er mwyn cael y buddiannau amgylcheddol gorau posibl i Gymru gyfan.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod cyfraniad canolfan organig Cymru i ddatblygiad ffermio organig yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i roi arian wedi'i fodwleiddio o daliadau cymorth yr UE i gynlluniau amaeth-amgylcheddol o fewn cyfnod derbyniol.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth Glymblaid i wneud cyhoeddiadau ynghylch taliadau cynnal blynyddol i ffermwyr organig mewn cyfnod derbyniol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 45
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 44
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 45; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.21pm

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 12 Chwefror 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 10 Chwefror 2003**

- Welsh European Funding Office Annual Accounts 2001 - 02 - LD1876 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 7 Chwefror 2003**

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyngor Gofal Cymru: 1 Hydref 2001 - 31 Mawrth 2002 - LD1875

**Dogfennau a Osodwyd ar 6 Chwefror 2003**

- The National Assembly for Wales Consolidated Resource Accounts 2001-2002 - LD1874 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

**Dogfennau a Osodwyd ar 5 Chwefror 2003**

- ☐ Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003 - LD1866
- ☐ Report of the Business Committee on Proposals to Change Standing Order 6.9 - LD1873
  *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*